

Addysg / Education



Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

☎ (01286) 679089 Ein Cyf / Our Ref:
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
✉ GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru



22 Mehefin 2020

AT: RIENI/OFALWYR PLANT YSGOLION GWYNEDD

Annwyl Riant/Ofalydd

Ysgrifennais atoch ar 15 Mehefin yn amlinellu ein cynlluniau yng Ngwynedd mewn perthynas â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ysgolion yn ailagor yn rhannol ar sail 'dod i'r ysgol, dal ati i ddysgu, paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi'.

Fe wnaeth y cyhoeddiad gwreiddiol ddatgan y byddai hyn am gyfnod o bedair wythnos o 29 Mehefin. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar am yr holl waith caled y mae'r ysgolion yn ei wneud i baratoi ar gyfer y 29^{ain}.

Fodd bynnag, deallwn na all Llywodraeth Cymru a'r undebau llafur ddod i safbwynt cyffredin cenedlaethol ynghylch y bedwaredd wythnos (20-24 Gorffennaf), er gwaetha'r trafodaethau maith. O'r herwydd, bydd ysgolion Gwynedd yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar 17 Gorffennaf.

Mae hyn oherwydd y rhesymau a ganlyn:

- Byddai ceisio gwneud trefniadau ar gyfer y bedwaredd wythnos yn rhoi'r cyfrifoldeb ar benaethiaid ysgolion ac aelodau staff unigol a fyddai, ym marn y Cyngor, yn annheg, yn enwedig, felly, ar adeg pan fo ysgolion yn wynebu mwy na digon o heriau. Tybir bod dull cyson o weithredu yn hanfodol, a byddai wedi bod yn llawer gwell gan y Cyngor petai'r materion hyn wedi'u datrys ar sail genedlaethol o'r cychwyn cyntaf, cyn i'r cyhoeddiad gwreiddiol gael ei wneud.
- Wrth i amser fynd yn ei flaen, barn y Cyngor yw bod angen eglurder llwyr a buan ar yr ysgolion, y rhieni a'r bobl ifanc: ysgolion, fel y gallent gynllunio ar sail sefydlog i dderbyn cynifer o ddisgyblion â phosib yn ystod y cyfnod hwn; rhieni a phobl ifanc, er mwyn iddynt allu wynebu'r wythnosau nesaf yn hyderus; ac er mwyn i rieni allu gwneud trefniadau gofal plant eraill fel bo angen yn y bedwaredd wythnos. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellir ei adael tan y funud olaf ac mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'i gyfrifoldebau statudol fel cyflogwr ac yng nghyd-destun diogelu plant a phobl ifanc.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.uk

- Yn absenoldeb yr eglurder hwnnw, mae risg y bydd ysgolion a rhieni/gofalwyr yn gwneud cynlluniau a fydd yn mynd yn ofer o bosib, ynghyd â'r Cyngor a'i bartneriaid allanol (e.e. y GIG sy'n gyfrifol am wneud trefniadau i brofi staff ysgolion).

Gyda rhai o'r newidiadau yn cael eu cyflwyno mor gynnar â'r wythnos nesaf, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad na allwn aros ddim hwy i wneud penderfyniadau cadarn a fydd yn gymorth wrth i ysgolion a rhieni/gofalwyr gynllunio a gweithredu. Felly, rydym wedi penderfynu y byddwn yn glynu wrth y dyddiadau tymor gwreiddiol.

Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth ofal dros wyliau'r haf ar gyfer plant gweithwyr allweddol cyn gynted â phosib'.

Rydym yn grediniol fod rhesymau addysgol a meddygol cadarn dros ailagor ysgolion ar 29 Mehefin, ond fel rhieni/gofalwyr rydych angen, ac yn haeddu, eglurder ynglŷn â'r cyfnod sydd dan sylw. Dan yr amgylchiadau hynny, mae angen gweithredu'n bendant.

Hyderaf y byddwch yn gwerthfawrogi'r rhesymau am y cyhoeddiad hwn a fydd yn caniatáu i chi gynllunio ar gyfer i'ch plant ddychwelyd yn raddol i'r ysgol o 29 Mehefin ymlaen gydag eglurder llwyr.

Yn gywir



Garem Jackson
Pennaeth Addysg



Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams
Aelod Cabinet – Addysg